Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Cerbydau

# Rhoi gwybodaeth i bobl **o'n cofnod cerbyd**



**Dogfen ryngweithiol**
Tachwedd 2024

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gwsmeriaid (neu ddarpar gwsmeriaid) y gwasanaeth ymholiadau â llaw neu ar bapur.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

OGL

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys


01 Rydych chi’n gwneud cais am eich data personol eich hun – Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)....4

02 Chi yw’r ceidwad cofrestredig presennol ac mae angen ichi wybod hanes eich cerbyd....5

03 Rydych chi’n geidwad blaenorol y cerbyd....6

04 Rydych chi’n unigolyn preifat sy’n gofyn am enw a chyfeiriad ceidwad cerbyd yn dilyn digwyddiad....7

05 Rydych chi’n unigolyn preifat sy’n gofyn am fanylion cerbyd sydd wedi’i adael ar eich eiddo....8

06 Rydych chi’n unigolyn preifat sy’n gwneud ymholiad am gerbyd sy’n tresbasu ar eich eiddo..9

07 Rydych chi’n unigolyn preifat sy’n gweithredu fel ysgutor ewyllys neu fel gweinyddwr ystâd person sydd wedi marw....10

08 Rydych chi’n gwmni sy’n gwneud ymholiad am gerbyd sy’n tresbasu ar eich eiddo....11

09 Rydych chi’n gwmni milltiredd sy’n pryderu ynghylch twyll milltiredd....12

10 Rydych chi’n gwmni yswiriant, yn gyfreithiwr neu’n asiantaeth cymorth cyfreithiol sy’n ymchwilio i dwyll neu’n ceisio cadarnhau cyflwr cerbyd cyn digwyddiad....13

11 Rydych chi’n gwmni yswiriant, yn gyfreithiwr neu’n asiantaeth cymorth cyfreithiol sydd eisiau cadarnhau atebolrwydd ac adennill costau yn dilyn digwyddiad....14

12 Rydych chi’n gyfreithiwr sy’n ymchwilio i anafiadau hawliadau personol....15

13 Rydych chi’n gyfreithiwr sy’n gweithredu ar ran cwmnïau cyllid ac yswiriant....16

14 Rydych chi’n gyfreithiwr neu’n asiantaeth cymorth cyfreithiol sydd eisiau cadarnhau atebolrwydd ac adennill costau at ddibenion priodasol....17

15 Rydych chi’n gyfreithiwr neu’n asiantaeth cymorth cyfreithiol sy’n cadarnhau asedau pan gyflwynir dyfarniad llys....18

16 Rydych chi’n gyfreithiwr neu’n asiantaeth cymorth cyfreithiol sy’n gweithredu fel ysgutor ewyllys, neu ar ran gweinyddwr ystâd person sydd wedi marw....19

17 Rydych chi’n gwmni rheoli tai a stadau sydd eisiau manylion ceidwad presennol cerbyd sydd wedi’i adael neu sydd wedi’i barcio ar dir preifat....20

18 Rydych chi’n orsaf betrol neu'n gweithredu ar ran gorsaf betrol....21

19 Rydych chi’n siop neu’n garej atgyweirio moduron....22

20 Rydych chi’n wneuthurwr cerbydau sy’n cynnal adalwad diogelwch....23

21 Rydych chi’n gwmni cyllid neu fanc sydd eisiau olrhain eich eiddo neu ddarganfod pryd y gwerthodd y person â chyllid y cerbyd....24

22 Rydych chi’n ddiddymwr, yn weinyddwr neu’n ymddiriedolwr mewn methdaliad yn chwilio am asedau unigolyn neu gwmni....25

23 Rydych chi’n gwmni gorfodi meysydd parcio preifat....26

24 Rydych chi’n asiant adennill dyledion ar gyfer parcio....27

25 Rydych chi’n ddelwriaeth moduron....28

26 Rydych chi’n gwmni sy’n ymchwilio i gamddefnyddio cerdyn tanwydd petrol....29

27 Archwiliadau DVLA....30

# 01. Rydych chi'n gwneud cais am eich data personol eich hun Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth mae DVLA yn ei chadw ar eich cofnod gyrrwr a cherbyd.<br>Mae'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim. | Gallwn roi copi ichi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi ar ein cofnodion gyrwyr a cherbydau o dan Erthygl 15 o GDPR y DU. | Ar gyfer eich ymholiad cofnod **gyrrwr**, bydd angen ichi gynnwys:<br>• eich enw llawn<br>• dyddiad geni<br>• eich cyfeiriad presennol a'r cyfeiriad a ddangosir ar eich trwydded yrru Prydain Fawr (os yw'n wahanol)<br>• cymaint o fanylion â phosibl, os ydych am inni adfer gwybodaeth feddygol a gedwir am eich ffitrwydd i yrru<br>Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch ofyn i'r Asiantaeth Gyrwyr & Cherbydau am wybodaeth amdanoch chi ar eich cofnod gyrrwr.<br><br>Ar gyfer eich ymholiad cofnod **cerbyd**, bydd angen ichi gynnwys:<br>• eich enw llawn<br>• eich cyfeiriad presennol a'r cyfeiriad sydd ar eich tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log)<br>• rhif cofrestru'r cerbyd rydych yn gofyn amdano<br>• pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn benodol, er enghraifft pan gofrestrwyd y cerbyd am y tro cyntaf neu'r dyddiad y gwnaethoch ei brynu | Os ydych chi'n drydydd parti sy'n gwneud cais ar ran rywun arall, rhaid ichi ddarparu cadarnhad o'i awdurdodiad neu gael atwrneiaeth ddilys.<br>Rhaid i'r cadarnhad o'i awdurdodiad gynnwys y canlynol:<br>• ei enw a'i gyfeiriad<br>• ei berthynas â chi<br>• cadarnhad bod hawl gennych i wneud y cais ar ei ran<br>• ei lofnod a'r dyddiad | **MIS1065W** – Gwneud cais am fynediad at ddata gan y testun (SAR) i DVLA<br><br>**Cliciwch yma am ffurflen MIS1065W** |

## 02. Chi yw'r ceidwad cofrestredig presennol ac mae angen ichi wybod hanes eich cerbyd

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o geidwaid cofrestredig blaenorol y cerbyd. Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>Newidiadau i'r cerbyd megis lliw neu injan. Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>Manylion unrhyw geidwaid blaenorol, os gallwch roi tystiolaeth ar gyfer pam mae angen manylion y ceidwad blaenorol. Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad. | Weithiau gallwn ryddhau manylion ceidwaid blaenorol lle mae'r gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny. Er enghraifft, lle mae angen manylion y ceidwad blaenorol ar gyfer achos llys.<br><br>Bydd p'un a ellir rhyddhau manylion yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. | • rhif cofrestru eich cerbyd<br>• gwneuthuriad a model eich cerbyd<br>• pam mae angen y wybodaeth arnoch a sut y caiff ei defnyddio<br>• os yw'ch cyfeiriad yn wahanol i'r un sydd gennym, rhaid ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad inni gyda'ch cais – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf:<br>  ◦ bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  ◦ bil ffôn<br>  ◦ cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>  ◦ os ydych chi wedi symud tŷ a'ch cyfeiriad wedi newid, bydd angen ichi roi manylion y cyfeiriad sydd gennym ar ein cofnodion<br><br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br><br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Unrhyw ddogfennaeth a fydd yn cefnogi'ch cais.<br><br>Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran y ceidwad cofrestredig, rhaid ichi roi llythyr inni gan y ceidwad cofrestredig sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran a rhaid iddynt ei lofnodi a'i ddyddio. Bydd angen iddynt gadarnhau'r manylion enw a chyfeiriad fel y dangosir ar ein cofnodion. | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br><br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 03. Rydych chi'n geidwad blaenorol y cerbyd

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Manylion ceidwad blaenorol, os gallwch roi tystiolaeth ar gyfer pam mae angen y manylion hyn. Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad. | Weithiau gallwn ryddhau manylion ceidwaid blaenorol lle mae'r gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny. Er enghraifft, lle mae angen manylion y ceidwad blaenorol ar gyfer achos llys.<br><br>Bydd p'un a ellir rhyddhau manylion yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. | • rhif cofrestru eich cerbyd<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd a fu'n eiddo ichi gynt<br>• pam mae angen y wybodaeth arnoch a sut y caiff ei defnyddio<br>• os yw'ch cyfeiriad yn wahanol i'r un sydd gennym, rhaid ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad inni gyda'ch cais – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf:<br>  ◦ bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  ◦ bil ffôn<br>  ◦ cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>  ◦ os ydych chi wedi symud tŷ a'ch cyfeiriad wedi newid, bydd angen ichi roi manylion y cyfeiriad sydd gennym ar ein cofnodion.<br><br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br><br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Unrhyw ddogfennaeth a fydd yn cefnogi'ch cais.<br><br>Mae angen inni weld mai chi yw ceidwad cofrestredig blaenorol y cerbyd pan fyddwn yn cael mynediad i'n cofnodion.<br><br>Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran y ceidwad cofrestredig blaenorol, rhaid ichi roi llythyr inni gan y ceidwad cofrestredig blaenorol sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran a rhaid iddynt ei lofnodi a'i ddyddio. Bydd angen iddynt gadarnhau'r manylion enw a chyfeiriad fel y dangosir ar ein cofnodion. | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br><br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 04. Rydych chi'n unigolyn preifat sy'n gofyn am enw a chyfeiriad ceidwad cerbyd yn dilyn digwyddiad

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person yr ydym wedi'i gofrestru fel y ceidwad ar ddydiad y digwyddiad. | Gallwn ddarparu manylion ceidwad y cerbyd lle bu mân ddigwyddiad sydd wedi achosi difrod i'ch cerbyd neu'ch eiddo, neu lle mae angen y wybodaeth er mwyn delio â hawliadau anafiadau personol.<br>Gallwn roi gwybodaeth ichi at y diben hwn lle gellir dangos 'achos rhesymol'. | • rhif cofrestru eich cerbyd<br>• manylion gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• rhif cofrestru cerbyd eich cerbyd eich hun os yw wedi bod yn rhan o'r digwyddiad<br>• pam mae angen y wybodaeth arnoch a sut y caiff ei defnyddio<br>• lleoliad y digwyddiad<br>• os yw'ch cyfeiriad yn wahanol i'r un sydd gennym, rhaid ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad inni gyda'ch cais – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf:<br>  ◦ bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  ◦ bil ffôn<br>  ◦ cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>  ◦ os ydych chi wedi symud tŷ a'ch cyfeiriad wedi newid, bydd angen ichi roi manylion y cyfeiriad sydd gennym ar ein cofnodion<br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran a rhaid iddynt ei lofnodi a'i ddyddio. Bydd angen iddynt gadarnhau'r manylion enw a chyfeiriad fel y dangosir ar ein cofnodion.<br>Bydd hefyd angen ichi roi'r canlynol inni:<br>• cyfeirnod yr heddlu os cafodd y digwyddiad ei adrodd iddynt<br>• rhif y polisi yswiriant os adroddwyd y digwyddiad i'r cwmni yswiriant<br>• ffotograff o'r cerbyd neu eiddo wedi'i ddifrodi<br>• copi o unrhyw ddyfynbris, anfoneb neu atgyweiriad<br>• os gwelwyd y digwyddiad, mae angen manylion y tyst arnom | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 05. Rydych chi'n unigolyn preifat sy'n gofyn am fanylion cerbyd sydd wedi'i adael ar eich eiddo

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person sy'n geidwad cofrestredig y cerbyd sydd wedi'i adael ar eich eiddo. | Gallwn roi'r wybodaeth hon ichi oherwydd bod y cerbyd wedi'i barcio neu wedi'i adael ar dir preifat ac mae angen manylion y ceidwad er mwyn trefnu i gael gwared ar y cerbyd. | • rhif cofrestru'r cerbyd sydd wedi'i adael<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd sydd wedi'i adael ar eich eiddo<br>• lle mae'r cerbyd wedi'i adael<br>• y dyddiad y gwnaethoch ddod o hyd i'r cerbyd ar eich eiddo<br>• tystiolaeth eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd ar eich V888W – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf:<br>  ◦ bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  ◦ bil ffôn<br>  ◦ cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran a rhaid iddynt ei lofnodi a'i ddyddio. Bydd angen iddynt gadarnhau'r manylion enw a chyfeiriad fel y dangosir ar ein cofnodion.<br>Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran y tirfeddiannwr, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan.<br>Rhaid ichi hefyd roi ffotograff inni o'r cerbyd sydd wedi'i adael. | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 06. Rydych chi'n unigolyn preifat sy'n gwneud ymholiad am gerbyd sy'n tresbasu ar eich eiddo

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person sydd gennym wedi'i gofrestru fel ceidwad ar y dyddiad y gwelwyd y cerbyd. | Gallwn ddarparu manylion ceidwad y cerbyd lle mae'n hysbys bod cerbyd yn tresbasu ar eich eiddo fel y gallwch gysylltu â cheidwad y cerbyd neu gymryd camau sifil yn ei erbyn. | • rhif cofrestru'r cerbyd sy'n tresbasu<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• eich cysylltiad â'r eiddo a'r lleoliad lle mae'r cerbyd wedi tresbasu<br>• sut y defnyddir y wybodaeth<br>• tystiolaeth eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd ar eich V888W – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y tri mis diwethaf:<br>  ◦ bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  ◦ bil ffôn<br>  ◦ cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran a rhaid iddynt ei lofnodi a'i ddyddio. Bydd angen iddynt gadarnhau'r manylion enw a chyfeiriad fel y dangosir ar ein cofnodion.<br>Os nad yw'r tir yn eiddo ichi, rhaid ichi roi llythyr awdurdod inni gan y tirfeddiannwr.<br>Ffotograff o'r cerbyd sydd wedi tresbasu yn dangos plât rhif cofrestru'r cerbyd. Ni fyddwn yn derbyn ffotograffau wedi'u tocio o'r rhif neu'r plât trwydded yn unig.<br>Bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch os yw'r ffotograffau'n annigonol. | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 07. Rydych chi'n unigolyn preifat sy'n gweithredu fel ysgutor ewyllys neu fel gweinyddwr ystâd person sydd wedi marw

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Cadarnhad mai'r person sydd wedi marw oedd y person yr oeddem wedi'i gofrestru fel ceidwad presennol neu flaenorol y cerbyd. | Gallwn roi'r wybodaeth hon ichi fel y gallwch nodi asedau'r ymadawedig. | • rhif cofrestru cerbyd y person ymadawedig<br>• gwneuthuriad a model cerbyd yr ymadawedig<br>• enw'r person sydd wedi marw a dyddiad y farwolaeth<br>• tystiolaeth eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd ar eich V888W – anfonwch un o'r canlynol a gyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf:<br>  • bil nwy, trydan, dŵr neu'r cartref<br>  • bil ffôn<br>  • cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu sy'n cuddio unrhyw fanylion sensitif<br>**Nodwch na fydd eich prawf cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd atoch.**<br>Rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais. | Copi o unrhyw ddogfennau sy'n cadarnhau eich penodiad fel ysgutor neu weinyddwr ystâd y person ymadawedig. | **V888W** – Cais gan unigolyn am wybodaeth ynghylch cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888W** |

## 08. Rydych chi'n gwmni sy'n gwneud ymholiad am gerbyd sy'n tresbasu ar eich eiddo

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person sydd gennym wedi'i gofrestru fel ceidwad ar y dyddiad y gwelwyd y cerbyd. | Gallwn ddarparu manylion ceidwad y cerbyd lle mae'n hysbys bod cerbyd yn tresbasu ar eich eiddo fel y gallwch gysylltu â cheidwad y cerbyd neu gymryd camau sifil yn ei erbyn.<br><br>Noder os dilynir ceidwaid neu yrwyr cerbydau am daliadau neu iawndal mewn modd tebyg i weithrediadau gorfodi parcio, rhaid ichi fod yn aelod o Gymdeithas Masnach Achrededig berthnasol a gweithredu yn unol â'u cod ymarfer cyn y gellir datgelu data. | • rhif cofrestru'r cerbyd sy'n tresbasu<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• yr union leoliad lle mae'r cerbyd wedi tresbasu a chadarnhau ei fod ar dir preifat yr ydych wedi'ch awdurdodi i'w reoli<br>• eich rhif cofrestru diogelu data<br>• eich rhif Tŷ'r Cwmnïau<br>• esboniad manwl o sut mae'r cerbyd wedi tresbasu ar eich eiddo (os na ddywedwch hyn wrthym, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch)<br>• os torrwyd y telerau ac amodau ar y safle, rhaid ichi egluro'n llawn sut (os na ddywedwch hyn wrthym, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch)<br>• cadarnhad bod arwyddion digonol ar y safle yn rhybuddio modurwyr i beidio â thresbasu<br>• prawf o'ch cyfeiriad os yw'n wahanol i'r un a ddangosir yn wefan Tŷ'r Cwmnïau neu wefan yr ICO ar gopi o anfoneb neu bapur â phennawd cwmni<br>• rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais<br>• os oes gennych gyfeiriad e-bost, anfonwch ef gyda phob ymholiad a wnewch (efallai y bydd y tîm Ymholiadau Cofnod Cerbyd yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth) | Os nad yw'r tir yn eiddo ichi, rhaid ichi roi llythyr awdurdod inni gan y tirfeddiannwr.<br><br>Rhaid ichi roi tystiolaeth o'ch awdurdod a'ch swydd yn y cwmni.<br><br>Rhaid ichi roi ffotograff o'r cerbyd sydd wedi tresbasu yn dangos rhif cofrestru a phlât rhif y cerbyd. Nodwch na fyddwn yn derbyn ffotograffau wedi'u tocio o'r rhif cofrestru cerbyd neu'r plât rhif yn unig.<br><br>Bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch os yw'r ffotograffau yn annigonol.<br><br>Rhaid ichi roi ffotograffau o'r arwyddion a arddangosir ar y safle. Nodwch y byddwn ond yn derbyn ffotograffau lle mae'n amlwg eu bod wedi'u harddangos ar y safle lle digwyddodd y drosedd. | **V888/2AW** – Cais gan gwmni am wybodaeth y ceidwad ar ddyddiad y digwyddiad.<br><br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888/2AW** |

Noder – at ddibenion archwilio, rhaid ichi allu darparu tystiolaeth a dangos trywydd archwilio i gefnogi'ch cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad. Dylid dinistrio'r holl ddata personol unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

## 09. Rydych chi'n gwmni milltiredd sy'n pryderu am dwyll milltiredd

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| • nifer y ceidwaid blaenorol<br>• enwau a chyfeiriadau'r ceidwaid blaenorol dros y 3 blynedd diwethaf<br>• y dyddiadau am hyd at 3 ceidwaid blaenorol a oedd â'r cerbyd<br>• y dyddiadau am hyd at 3 ceidwaid blaenorol a wnaeth werthu, trosglwyddo neu waredu'r cerbyd | Gallwn roi'r wybodaeth hon ichi fel y gallwch wirio a yw milltiredd cerbyd yn gywir os oes gennych dystiolaeth neu ddrwgdybiaeth o dwyll milltiredd.<br>Bydd gwybodaeth dim ond yn cael ei darparu am gerbydau sydd heb gael eu cyflwyno am MOT.<br>Ar gyfer y cerbydau hynny a gyflwynwyd ar gyfer MOT, dylid defnyddio'r manylion a gasglwyd yn yr arolygiad i wirio milltiredd y cerbydau.<br>Nid gwasanaeth gwiriad milltiredd yw hwn. | • y rhif cofrestru<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• Rhif Adnabod y Cerbyd (VIN) y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais<br>• os oes gennych gyfeiriad e-bost, rhowch ef gyda phob ymholiad a wnewch (efallai y bydd y Tîm Ymholiadau Cofnod Cerbyd yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth)<br>• y rheswm pam mae amheuaeth o dwyll | Pan gewch eich archwilio, rhaid ichi ddarparu copi o unrhyw gytundeb rhwng eich cwmni a DVLA sy'n eich galluogi i wneud yr ymholiadau hyn.<br>Bydd hefyd rhaid ichi ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos bod twyll milltiredd wedi digwydd, fel nad yw'r milltiredd sydd wedi'i gofnodi ar odomedr y cerbyd yn cyfateb gyda'r oedran neu gyflwr. Gall enghreifftiau o hyn fod yn detholiadau o hanes gwasanaeth y cerbyd neu adroddiad arolwg cerbyd. | **V888/2BW** – Cais gan gwmni am wybodaeth o gofnod cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888/2BW** |

Noder – at ddibenion archwilio, rhaid ichi allu darparu tystiolaeth a dangos trywydd archwilio i gefnogi'ch cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad. Dylid dinistrio'r holl ddata personol unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

## 10. Rydych chi'n gwmni yswiriant, yn gyfreithiwr neu'n asiantaeth cymorth cyfreithiol sy'n ymchwilio i dwyll neu'n ceisio cadarnhau cyflwr cerbyd cyn digwyddiad

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| • nifer y ceidwaid blaenorol<br>• enwau a chyfeiriadau'r ceidwaid blaenorol<br>• y dyddiadau y cafodd y ceidwaid blaenorol y cerbyd<br>• y dyddiadau y cafodd y ceidwaid blaenorol wared ar y cerbyd | Gallwn ryddhau gwybodaeth i gwmnïau yswiriant a chyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran cwmnïau yswiriant at ddibenion ymchwilio i ddigwyddiadau traffig ar y ffordd, hawliadau cysylltiedig â cherbydau ac amheuaeth o dwyll yswiriant. | • rhif cofrestru'r cerbyd oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• rhif cofrestru diogelu data<br>• rhif Tŷ'r Cwmnïau<br>• esboniad o amgylchiadau'r ddamwain neu'r digwyddiad<br>• esboniad pam rydych chi'n amau twyll<br>• esboniad o sut y bydd y wybodaeth a roddwn ichi yn eich helpu<br>• prawf o'ch cyfeiriad os yw'n wahanol i'r un a ddangosir yn wefan Tŷ'r Cwmnïau neu wefan yr ICO ar gopi o anfoneb neu bapur â phennawd cwmni<br>• rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais<br>• os oes gennych gyfeiriad e-bost, rhowch ef gyda phob ymholiad a wnewch (efallai y bydd angen i'r Tîm Ymholiadau Cofnod Cerbyd gysylltu â chi am ragor o wybodaeth) | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan.<br>Cyfeirnod hawliad neu achos. | **V888/2BW** – Cais gan gwmni am wybodaeth o gofnod cerbyd.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £5 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888/2BW** |

Noder – at ddibenion archwilio, rhaid ichi allu darparu tystiolaeth a dangos trywydd archwilio i gefnogi'ch cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad. Dylid dinistrio'r holl ddata personol unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

# 11. Rydych chi'n gwmni yswiriant, yn gyfreithiwr neu'n asiantaeth cymorth cyfreithiol sydd eisiau cadarnhau atebolrwydd ac adennill costau yn dilyn digwyddiad

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person sydd wedi'i gofrestru gennym fel y ceidwad ar ddyddiad y digwyddiad. | Gallwn ddarparu manylion ceidwad y cerbyd lle bu mân ddigwyddiad sydd wedi achosi difrod i gerbyd neu eiddo eich cleient, neu lle mae angen y wybodaeth er mwyn delio â hawliadau anafiadau personol. Gallwn eich helpu chi i sefydlu atebolrwydd ac adennill costau.<br>Gallwn roi gwybodaeth ichi at y diben hwn lle gellir dangos 'achos rhesymol'. | • rhif cofrestru'r cerbyd oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• rhif cofrestru cerbyd eich cleient os oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• esboniad llawn ac eglur o sut roedd y cerbyd yn rhan o'r digwyddiad honedig a pham bod angen manylion y ceidwad<br>• pryd a ble oedd y digwyddiad<br>• eich rhif cofrestru diogelu data<br>• eich rhif Tŷ'r Cwmnïau<br>• tystiolaeth o'r cerbyd neu'r eiddo wedi'i ddifrodi megis copi o ddyfynbris neu anfoneb ar gyfer atgyweirio, ffotograff, adroddiad damwain neu gyfeirnod achos hawliad<br>• prawf o'ch cyfeiriad os yw'n wahanol i'r un a ddangosir yn wefan Tŷ'r Cwmnïau neu wefan yr ICO ar gopi o anfoneb neu bapur â phennawd cwmni<br>• rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais<br>• os oes gennych gyfeiriad e-bost, rhowch ef gyda phob ymholiad a wnewch (efallai y bydd angen i'r Tîm Ymholiadau Cofnod Cerbyd gysylltu â chi am ragor o wybodaeth) | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan.<br>Cyfeirnod hawliad neu achos.<br>**Noder, os na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth ni fyddwn yn gallu prosesu eich ymholiad.** | **V888/2AW** – Cais gan gwmni am wybodaeth y ceidwad ar ddyddiad y digwyddiad.<br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888/2AW** |

Noder – at ddibenion archwilio, rhaid ichi allu darparu tystiolaeth a dangos trywydd archwilio i gefnogi'ch cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad. Dylid dinistrio'r holl ddata personol unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

## 12. Rydych chi'n gyfreithiwr sy'n ymchwilio i anafiadau hawliadau personol

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
| Enw a chyfeiriad y person sydd wedi'i gofrestru gennym fel y ceidwad ar ddyddiad y digwyddiad. | Gallwn ryddhau data i gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran cwmnïau yswiriant at ddibenion ymchwilio i hawliadau anafiadau personol yn dilyn digwyddiad traffig ar y ffordd.<br><br>Gallwn roi gwybodaeth ichi at y diben hwn lle gellir dangos 'achos rhesymol'. | • rhif cofrestru'r cerbyd oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• rhif cofrestru cerbyd eich cleient os oedd yn rhan o'r digwyddiad<br>• gwneuthuriad a model y cerbyd rydych yn gwneud ymholiad amdano<br>• esboniad llawn ac eglur o sut roedd y cerbyd yn rhan o'r digwyddiad honedig a pham bod angen manylion y ceidwad<br>• pryd a ble oedd y digwyddiad<br>• eich rhif cofrestru diogelu data<br>• eich rhif Tŷ'r Cwmnïau<br>• esboniad o sut y bydd y wybodaeth a roddwn ichi yn eich helpu<br>• esboniad o sut y bydd y wybodaeth a roddwn ichi yn eich helpu<br>• prawf o'ch cyfeiriad os yw'n wahanol i'r un a ddangosir yn wefan Tŷ'r Cwmnïau neu wefan yr ICO ar gopi o anfoneb neu bapur â phennawd cwmni<br>• rhaid ichi lofnodi a dyddio'ch cais<br>• os oes gennych gyfeiriad e-bost, rhowch ef gyda phob ymholiad a wnewch (efallai y bydd angen i'r Tîm Ymholiadau Cofnod Cerbyd gysylltu â chi am ragor o wybodaeth) | Os ydych chi'n gwneud ymholiad ar ran rywun arall, rhaid ichi roi llythyr inni ganddynt sy'n eich awdurdodi i weithredu ar eu rhan.<br><br>Cyfeirnod yr heddlu os cafodd y digwyddiad ei adrodd i'r heddlu.<br><br>Cyfeirnod hawliad neu achos. | **V888/2AW** – Cais gan gwmni am wybodaeth y ceidwad ar ddyddiad y digwyddiad.<br><br>Rhaid ichi amgáu siec neu archeb bost o £2.50 ar gyfer pob ymholiad.<br><br>**Cliciwch yma am y ffurflen V888/2AW** |

Noder – at ddibenion archwilio, rhaid ichi allu darparu tystiolaeth a dangos trywydd archwilio i gefnogi'ch cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad. Dylid dinistrio'r holl ddata personol unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

# 13. Rydych chi'n gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran cwmnïau cyllid ac yswiriant

| Y wybodaeth y gallwch ei chael gan DVLA | Pam y gall DVLA roi'r wybodaeth hon ichi | Gwybodaeth rydym ei heisiau gennych chi pan fyddwch yn gwneud ymholiad | Tystiolaeth sydd angen ichi ei rhoi inni | Y ffurflen y mae angen ichi ei llenwi |
|---|---|---|---|---|
